

Safonau'r Gymraeg

Asesu Effaith

Yn unol â'r Safonau Gymraeg, mae'n rhaid i'r Brifysgol asesu effaith ei holl bolisiau/strategaethau a datblygiadau cyrsiau ar:

- Y cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae'r rhestr wirio ganlynol wedi cael ei datblygu er mwyn eich cynorthwyo i gofnodi sut rydych wedi dod i benderfyniad ynglŷn ag effaith polisi/strategaeth rydych chi'n gyfrifol amdano/amdani ar y Gymraeg yn y Brifysgol. Mae'r dystiolaeth y gallwch gyfeirio ati yn cynnwys, er enghraifft, cadw at y Cod Ymarfer ar Benodi Staff, trafodaethau mewn grwpiau tasg, ymgynghori â myfyrwyr, staff a Chanolfan Bedwyr.

Staffio

Pa effaith fydd y polisi/strategaeth yn ei gael ar gapasiti staffio dwyieithog y Brifysgol?

Potensial i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg

Tystiolaeth: _____

Potensial i leihau nifer y staff sy'n siarad Cymraeg

Tystiolaeth: _____

Ddim yn berthnasol:

Os oes posibilrwydd y bydd y polisi/strategaeth yn lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith y staff, rhowch amlinelliad o'r camau sy'n cael eu cymryd i lunio/newid y polisi/strategaeth fel nad yw'n cael effaith niweidiol:

Defnyddio'r Gymraeg

Pa effaith fydd y polisi/strategaeth yn ei gael ar y cyfleodd i fyfyrwyr, staff a/neu'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg?

Potensial i gynyddu'r cyfleodd

Tystiolaeth: **Fel rhan o'r System Cynrychiolwyr Cwrs mae yna swyddi cynrychiolwyr cyrsiau Cymraeg eu hiaith ac maent yn rhoi adborth i'r Brifysgol ar y ddarpariaeth addysg Gymraeg, cynnwys ac asesiad y cyrsiau, strwythur y cyrsiau a dulliau addysgu/dysgu a'r profiad academiaidd cyffredinol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Dylai Agendâu'r**

Pwyllgor Staff Myfyrwyr hefyd gynnwys adborth gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg fel eitem ar agenda pob cyfarfod.

Potensial i leihau'r cyfleodd

Tystiolaeth: _____

Ddim yn berthnasol

Os oes gan y polisi/strategaeth y potensial i gael effaith negyddol ar y cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg, rhowch amlinelliad o'r camau sy'n cael eu cymryd i lunio/newid y polisi/strategaeth fel nad yw'n cael effaith niweidiol:

Cryfhau'r cyfleodd i astudio drwy'r Gymraeg

Ydy'r polisi/strategaeth/datblygiad cwrs yn gwella'r cyfleodd sydd ar gael i fyfyrwyr astudio drwy'r Gymraeg?

Ydy Nac ydy Ddim yn berthnasol

Pa gamau sydd wedi'u cymryd i ystyried sut y gallai'r polisi/strategaeth/datblygiad cwrs wella'r cyfleodd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr?

Gall cynrychiolwyr cyrsiau Cymraeg roi adborth i'r Brifysgol ar y ddarpariaeth addysg Gymraeg a chyfleodd cyfrwng Cymraeg gyda'r gobaith y bydd hynny'n gwella'r cyfleodd sydd ar gael i fyfyrwyr.